Cylch Gorchwyl

# Y Panel Cwynion

Cymeradwywyd: Mawrth 2024 (Adolygwyd: Mawrth 2024; Adolygiad nesaf: Mawrth 2026)

**Pwrpas**

Mae gan y Panel Cwynion swyddogaeth yn unol â Phroses Gwynion S4C i ystyried cwynion yn ymwneud â materion cydymffurfiaeth neu reoleiddio mewn perthynas â chynnwys S4C, neu gwynion yn ymwneud â materion eraill pan fydd y cwynwyr am gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr.

*(Noder y gellir cyflwyno cwynion ynghylch cynnwys a ddarlledir ar wasanaeth teledu S4C i S4C neu Ofcom, ond mai S4C sy'n gyfrifol am ystyried cwynion yn ymwneud â chynnwys a ddarlledir ar blatfformau eraill gan S4C).*

**Aelodaeth a Phresenoldeb Eraill**

Aelodau (3 aelod)

- Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd (i gadeirio)
- 2 Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd

Cworwm: 2 aelod.

Penodir aelodau'r Panel gan y Bwrdd, yn unol â'r aelodaeth uchod.

Mynychwyr nad ydynt yn aelodau

- Ysgrifennydd y Bwrdd

Ar gais yr Ysgrifennydd, gall Cadeirydd y Panel ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel bo'n briodol.

**Cylch Gorchwyl**

1. Ystyried y materion canlynol, gyda'r awdurdod i gytuno ar benderfyniadau addas ar ran y Bwrdd:
   i. Cwynion am gynnwys S4C sy'n ymwneud â materion cydymffurfiaeth neu reoleiddio (nid materion golygyddol), pan fydd y cwynwr yn anghytuno gydag ymateb y Cyfarwyddwr Cynnwys a / neu'r Prif Weithredwr, yn unol â'r Broses Gwynion;
   ii. Cwynion yn ymwneud â materion eraill, pan fydd y cwynwr yn anghytuno ag ymateb y Prif Weithredwr ac yn cyflwyno apêl – cyhyd â bod y Panel o'r farn bod rheswm digonol i ystyried y cais am apêl.

**Hawliau'r Panel**

Gall y Panel:

- gomisiynu cyngor arbenigol neu ymchwil yn ôl yr angen (trwy'r Ysgrifennydd); a
- geisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen gan unrhyw aelod o'r staff, a chyfarwyddir pob aelod o'r staff i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y Panel.

Ni fydd hawl gan y Cadeirydd gymryd unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar ran y Panel.

**Trefniadau Cyfarfodydd**

Cynhelir y cyfarfodydd yn ôl y galw pan fydd cwyn i'w ystyried.

Gofynnir i unigolion adael y cyfarfod pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi (y Pwyllgor fydd â'r gair olaf mewn unrhyw achos o wrthdaro).

Bydd yr Ysgrifennydd, neu fel arall, berson cymwys a benodir gan yr Ysgrifennydd, yn cofnodi'r cyfarfod.

Ni fydd cofnodion a / neu adroddiadau gan y Panel yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Fodd bynnag, bydd crynodeb o'r materion a ystyriwyd gan y Panel yn ystod y flwyddyn adrodd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd, trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar y cwynion a dderbyniwyd gan S4C.

| |
|---|
| Yn amodol ar y darpariaethau uchod, bydd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog y Bwrdd, i'r graddau eu bod yn berthnasol. |